# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

## CYMRAEG AIL IAITH

## HAF 2013

© WJEC CBAC Cyf.

RHAGARWEINIAD

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad Haf 2013 TGAU CYMRAEG AIL IAITH. Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.

© WJEC CBAC Cyf.

## UNED 1

**C.1** **15 marc**

**3 marc ticio. 9 marc – cyflwyno gwybodaeth. 3 marc iaith**

(i) Ticiwch 3 gweithgaredd sy'n digwydd yn ystod y diwrnod codi arian i roi ar eich gweplyfr. [3]

**Helpu pacio bagiau, nofio, gwerthu teisennau tu ôl i stondin.**

(ii) Ysgrifennwch baragraff yn Gymraeg gan roi'r wybodaeth isod am y diwrnod codi arian. [9 + 3]

Codi arian at beth:
(**Ward) Canser Plant/ Ysbyty (Bryn Llywelyn)/ elusen [1]**

Dyddiad: **Awst 5 [1] (dydd Sadwrn = 0)**

Pacio bagiau: Ble? **Asda [1]**

Faint o'r gloch?
**Hanner awr wedi wyth tan chwech o'r gloch/ 8.30 – 6.00 [1]**
**Hanner awr wedi wyth = 0 marc**
**Chwech o'r gloch = 0 marc**

Nofio noddedig. Ble? **Canolfan Hamdden [1]**

Rhaid gallu? **nofio (yn dda) [1]**

Stondin gwerthu. Ble? **Neuadd y Dref [1]**

Pryd? **(yn ystod) y bore [1]**

Eisiau codi **£400 [1]**

3 marc iaith am gyflwyno gwybodaeth gywir yn gyfathrebol.

**Rhaid cael ymdrech i ysgrifennu brawddegau i wobrwyo marciau iaith. Ni ellir gwobrwyo marciau iaith os mai atebion un gair sydd drwy'r paragraff.**

1 – 3 ateb cywir – 1 marc
4 – 6 ateb cywir - 2 farc
7 – 9 ateb cywir - 3 marc

© WJEC CBAC Cyf.

**C.2** Mae eich dosbarth chi yn ysgrifennu tudalen ar gyfer bwletin yr wythnos yn yr ysgol. Ysgrifennwch eich cyfraniad chi isod **yn Gymraeg** gan ddefnyddio brawddegau llawn. Rhaid i chi gyflwyno o leiaf 5 ffaith. **10 marc**

**Cynnwys**

**5 marc am gyflwyno 5 ffaith yn ddealladwy ond heb o reidrwydd fod yn gwbl ramadegol gywir.**

Pethau dw i'n hoffi a ddim yn hoffi am fy ardal i. Pam?
Canu pop. Disgrifiad o hoff ganwr neu grŵp. Pam yn hoffi?

**Cywirdeb iaith.**

**5 marc –** **1 marc yr un am bob cystrawen gywir wahanol.**
**2 farc am reswm.**

**Felly gellir cael 5 cystrawen gywir neu 3 cystrawen gywir + rheswm cywir.**

**Gwobrwyo cystrawennau cywir fel:**
**Dw i'n**
**Mae**
**Achos mae/ roedd**
**Es i**
**Ces i**
**Gwelais i**
**Roeddwn i**
**Dydw i ddim**
**Mae gen i/ mae gyda fi**
**Does gen i ddim/ Does dim .... gyda fi**
**Mae'n gas gen i/ gyda fi**
**Dw i'n dwli/ dwlu ar**

© WJEC CBAC Cyf.

**C.3 Proffil** **30 marc**

*Geni a magu:* **Rhondda / Tonypandy [1]**

*Enw tad a mam:* **(i) David (ii) Michelle [2]**

*Sawl brawd a chwaer*: **Un. [1]**

*Ysgol a Choleg Tonypandy: Hoffi beth?* **(i) canu (sioeau) cerdd (ii) actio / drama [2]**

*Wedi gwneud ar y teledu cyn y rhaglen Over the Rainbow:* **(i) X Factor (ii) rhaglenni ar S4C/ rhaglenni teledu. [2] S4C = 0 marc**

*Rhaglen Over the Rainbow. Pwy oedd 1af:* **Danielle Hope.** *Yn ail* **Sophie. [2]**

*Ar ôl rhaglen Over the Rainbow. Gwneud beth?* **(i) cwrs cerddoriaeth theatr (ii) canu rhan Dorothy (dydd Mawrth / pan roedd Danielle ar wyliau). [2]**

*Nawr gwneud rhan Dorothy 6 gwaith bob wythnos. Rhaid i Sophie wneud beth?* **(i) bwyta'n iach (ii) mynd i'r gwely'n gynnar [2]**

*Byw yn Llundain yn wahanol. Sut?* Unrhyw dri – 1 marc yr un **(i) dysgu sut i edrych ar ôl ei hun (ii) coginio (iii) cadw'r fflat yn daclus (iv) dysgu byw gyda phobl eraill. [3]**

*Dysgu Cymraeg ar Cariad@iaith. Pam?* **(i) i siarad Cymraeg yn iawn (ii) i weithio yn Gymraeg/ pobl yn gofyn oeddwn i'n siarad Cymraeg (a doeddwn i ddim)/ eisiau siarad Cymraeg. [2]**

*Wedi gwneud beth yn Gymraeg erbyn hyn?* **(i) canu / gwneud cyngherddau gyda Rhydian Roberts (ii) canu / gwneud cyngherddau gyda Mark Evans (iii) canu ar S4C/ rhaglen yn Gymraeg ar S4C/ gweithio yng Nghymru/ siarad Cymraeg. [3]**

Ysgrifennwch **ddwy** frawddeg **yn Gymraeg** yn y **3ydd** person yn rhoi **dwy** ffaith am beth mae Sophie yn ddweud yn y cyfweliad am y dyfodol.

*Write **two** sentences **in Welsh** in the **3rd** person giving **two** facts about what Sophie says about the future.* [✓ = 6] = **[6]**

**3 marc yr un. Rhaid i'r cynnwys fod yn gywir i gael unrhyw farc**.

Hoffai / mae Sophie eisiau gwneud mwy o waith yn y theatr / ar y teledu ( yn Lloegr) yng Nghymru.

Mae hi eisiau canu mewn cyngherddau / ar S4C.

Mae hi eisiau gwella ei llais.

Hoffai hi gael mwy o amser i fynd nôl i'r Rhondda.

2 farc yr un am ymdrech i ysgrifennu brawddeg a newid i'r 3ydd person – heb fod yn gwbl gywir.

Mae hi mwynhau …….

Mae hi eisiau yn mynd nôl i'r Rhondda mwy.

© WJEC CBAC Cyf.

**C.4** **20 marc**

Rydych chi a'ch ffrind wedi mynd ar wyliau gwersylla. Dyma rai o'r lluniau rydych chi wedi eu tynnu. Ysgrifennwch hanes y gwyliau ar gyfer eich papur bro.

**CYNNWYS** **10 marc**

Dylid cyfeirio at y lluniau.
2 farc am bob llun. Disgwylir o leiaf 2 frawddeg am bob llun.
1 marc am gyflwyno ffaith gyfathrebol gywir wedi ei chyflwyno mewn brawddeg.

**MYNEGIANT** **10 marc**

Gwobrwyir

(a) y gallu i gyfathrebu'n ystyrlon.
(b) y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas e.e. cymalau rheswm.
(c) y gallu i ddefnyddio'r ferf ac amser y ferf yn briodol.
(ch) y gallu i ddefnyddio cystrawen ffurfiol.
(d) geirfa addas sy'n cyfrannu at gyfathrebu ystyrlon llwyddiannus.
dd) bydd y rwbric yn rhoi peth cymorth i'r ymgeisydd a gwobrwyir y gallu i'w ddefnyddio'n ystyrlon.

10 - 9 Cyfathrebu llwyddiannus, cystrawen sicr, geirfa dda, syniadau pwrpasol, diddorol, rhediad naturiol a defnydd cywir (ar y cyfan) o amser y ferf. Ymatebion cywir ar y cyfan.

8 - 7 Ymatebion pwrpasol, diddorol, rhai camgymeriadau cystrawennol, geirfa eitha da. Ymdrech i ddefnyddio amser priodol y ferf ac yn llwyddiannus fel arfer. Cyfathrebu ystyrlon a defnydd gweddol gywir o iaith.

6 - 5 Canolig - yn llwyddo i gyfathrebu er bod camgymeriadau iaith. Ar y cyfan nid yw'r camgymeriadau yn cymylu'r ystyr. Geirfa ddigonol i gyflawni'r dasg. Ddim yn uchelgeisiol ond yn cynnwys y rhan fwyaf o'r pwyntiau.

4 - 3 Is na'r canolig ond yn llwyddo i gyfathrebu mewn mannau.

2 - 1 Y dasg yn ormod iddynt.

0 Dim i'w wobrwyo.

© WJEC CBAC Cyf.

**C.3 Uwch.** **30 marc**

Darllenwch beth mae Gareth a Michelle wedi ysgrifennu mewn cylchgrawn newydd i bobl ifanc. Yna llenwch y gridiau **yn Gymraeg.**

**Gareth**

| | |
|---|---|
| **Gwaith gydag elusen** | **Yn hoffi** – anfon anrhegion Nadolig (i Affrica) **[1]**<br>**Pam?** – achos mae'r plant yn Affrica'n dlawd iawn / hoffi helpu nhw i gael Nadolig hapusach **[1]**<br>**Ddim yn hoffi** (Elusen yn) mynd yn fusnes mawr / hysbysebu ar y teledu/ pobl yn talu arian bob mis i'r elusen**[1]**<br>**Pam?** (Llawer o'r) arian yn mynd i bobl sy'n gweithio i'r elusen **[1]**<br>hysbysebion ar y teledu = **0 marc**<br>dangos plant bach Affrica yn dioddef = **0 marc** |
| **Dilyn y ffasiwn – dillad pêl-droed** | **Yn hoffi**. Gwisgo dillad ei hoff dîm / Abertawe **[1]**<br>**Pam?** Hoffi dangos pwy rydw i'n gefnogi / fy mod yn falch o'r tîm **[1]**<br>**Ddim yn hoffi.** Clybiau mawr/ timau pêl-droed sy'n newid eu dillad pêl droed yn aml / Clybiau mawr/ timau pêl-droed sy'n newid eu dillad bob blwyddyn/ dwy neu dair gwaith **[1]**<br>**Pam?** Achos eu bod yn gwneud gormod o elw o'r cefnogwyr/ rhy ddrud i'r cefnogwyr/ ddim yn deg **[1]**<br>rhy ddrud **= 0 marc** |
| **Chwaraeon** | **Yn hoffi. Pa un?** Pêl-droed **[1]**<br>**Pam?** Does dim rhaid bod yn fawr a chryf / mae pawb yn gallu cymryd rhan/ mae pawb yn gallu chwarae **[1]**<br>**Ddim yn hoffi. Pa un?** Rygbi **[1]**<br>**Pam?** (Achos mae llawer o chwaraewyr yn) cael anafiadau / brifo/ chwaraeon corfforol/ chwaraeon caled **[1]** |

**Michelle**

| | |
|---|---|
| **Gwaith gydag elusen** | **Yn hoffi.** Gweithio yn y siop elusen/ gweithio yn siop Oxfam **[1]**<br>**Pam?** (Wrth ei bodd yn) cyfarfod pobl / beth da i roi ar CV **[1]**<br>**Ddim yn hoffi**. (Gweld) siopau elusen yn gwerthu pethau newydd (fel cardiau a llyfrau) **[1]**<br>Siopau elusen **= 0 marc**<br>**Pam?** Achos siopau bach yn cau /siopau elusen yn dwyn cwsmeriaid siopau bach/ dylai siopau elusen werthu pethau ail law **[1]**<br>gwerthu pethau ail law **= 0 marc** |

| | |
|---|---|
| **Dilyn y ffasiwn – Pobl ifanc** | **Yn hoffi.** Prynu dillad ffasiynol/ mwyaf ffasiynol (yn y siopau mawr yn dref) **[1]**<br>**Pam?** Gwneud i chi deimlo'n dda / codi eich calon **[1]**<br>**Ddim yn hoffi.** Hysbysebu ffasiwn o hyd ac o hyd mewn cylchgronau/ (holl) hysbysebu **[1]**<br>**Pam?** Pobl sy ddim yn gallu eu fforddio yn cael eu bwlio/ pobl ddim yn gallu fforddio **[1]** |
| **Chwaraeon** | **Pethau da.** Gymnasteg/ aelod o'r clwb gymnasteg **[1]**<br>**Pam?** Achos does dim ots beth ydy'r tywydd tu allan / rydych chi'n gallu gwneud gymnasteg yn y gaeaf/ haf / gyda'r nos pan mae hi'n dywyll **[1]**<br>aelod o'r clwb gymnasteg **= 0 marc**<br>**Pethau negyddol.** Rhedeg traws gwlad/ traws gwlad **[1]**<br>Rhedeg **= 0 marc**<br>**Pam?** (Achos rhaid i chi) redeg tu allan/ yn y mwd a'r glaw / yn y tywydd oer / mae eich dillad a'ch coesau yn fwd i gyd **[1]** |

(ii) Nawr dewiswch beth ydych chi'n meddwl ydy'r pwynt gorau yn y darnau a rhowch eich rhesymau personol chi am eich dewis.
*Now choose what you think is the best point made in the reading passages and your personal reasons for choosing it.*

(iii) A dewiswch y pwynt dydych chi ddim yn hoffi yn y darnau a rhowch eich rhesymau personol chi am eich dewis.
*Choose the point that you don't in the reading passages and give your personal reasons for choosing it.*

**3 marc yr un. Rhaid i'r cynnwys fod yn gywir i gael unrhyw farc h.y. Mae Gareth yn dweud 'Rydw i'n mwynhau dilyn y ffasiwn ...'. Felly byddai'n rhaid i'r ymgeisydd ymateb i hynny e.e. byddai dweud**
**'Rydw i'n cytuno â Gareth achos rydw i'n casáu prynu dillad ffasiynol' yn cael 0 marc.**
**Mae'n rhaid ei bod hi'n glir at bwy neu beth mae'r ymgeisydd yn cyfeirio.**
**Dim ond marcio'r rheswm yn unig o ran cywirdeb iaith.**

**Mae'n rhaid bod yn berffaith gywir i ddyfarnu 3 marc.**
**2 farc os oes mân wallau gramadegol.**

**C.4** Ysgrifennwch ar **un** o'r canlynol ( tua 150 o eiriau) **40 marc**

(i) Fy syniadau i am siarad Cymraeg.

(ii) Gwaith rhan-amser – pethau da a phethau negyddol.

(iii) Digwyddiad arbennig yn fy mywyd.

**Cynnwys** **10 marc**

Gwobrwyir:

(a) ymatebion diddorol a chymwys ynghyd â rhesymau lle'n briodol
(b) dilyniant rhesymegol i'r syniadau a'r farn
(c) ymdriniaeth ddiddorol a chynhwysfawr o'r testun
(ch) ymdrech i fod yn uchelgeisiol o ran syniadau ac ymatebion

| | |
|---|---|
| 10 - 9 | Ymdriniaeth hynod o hyderus. Yn gallu ymateb i'r dasg yn glir a phendant iawn gyda syniadau uchelgeisiol ac aeddfed a'r gallu i ymresymu'n glir a pherthnasol. Yn ymdopi â gofynion y dasg yn llwyddiannus iawn. |
| 8 - 7 | Ymdriniaeth hyderus. Yn gallu mynegi barn yn glir a phendant gyda rhai rhannau uchelgeisiol a'r gallu i ymresymu'n glir. Yn ymdopi â gofynion y dasg yn llwyddiannus. |
| 6 - 5 | Ymdriniaeth eithaf hyderus. Yn gwneud ymdrech i ymateb yn eithaf clir gyda rhai rhannau da. Cynllun a dilyniant amlwg i'r gwaith. Rhai rhannau gwell na'i gilydd. |
| 4 - 3 | Yn llwyddo i ymdopi â'r dasg ar lefel gyffredin ond derbyniol. Yn llai uchelgeisiol na'r uchod a'r ymatebion yn aros ar lefel sylfaenol. |
| 2 - 1 | Diffyg patrwm i'r gwaith ond gellir gwobrwyo ambell beth yma ac acw. |
| 0 | Dim byd i'w wobrwyo. |

© WJEC CBAC Cyf.

**Mynegiant** **10 marc**

Gwobrwyir:

(a) y gallu i ymateb yn llwyddiannus
(b) y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas
(c) geirfa addas a chymwys i ddelio â'r testun
(ch) cywirdeb ac ymdrech i ymgyrraedd at gysondeb o ran amserau'r ferf
(d) ymdrech i greu naws ac awyrgylch priodol trwy ddefnyddio idiomau, cymariaethau a.y.b. ac efallai elfen o hiwmor.
(dd) ymdrech i argyhoeddi a pherswadio ynglŷn â barn a syniadau.

| | |
|---|---|
| 10 - 9 | Mynegiant hynod o ystwyth a hyderus, gan ddefnyddio amrywiaeth dda o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion eang a chyfoethog sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrlon a llwyddiannus iawn. Elfen gref iawn o gywirdeb gan ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir. |
| 8 - 7 | Mynegiant ystwyth a hyderus gan ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa eang sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrlon a llwyddiannus. Elfen dda o gywirdeb gan ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir. |
| 6 - 5 | Mynegiant derbyniol gan ddefnyddio peth amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion da iawn sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrlon. Elfen eithaf da o gywirdeb gan ddefnyddio rhai ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir. |
| 4 - 3 | Ymdrech i ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion eitha da ac yn gwneud ymdrech i fynegi barn. Ansicrwydd yma ac acw gyda ffurfiau berfol. Rhannau byr yn ein hargyhoeddi. |
| 2 - 1 | Yn cael trafferth i ddefnyddio patrymau brawddegol yn gywir. Geirfa gyfyngedig a defnydd anghywir o ffurfiau berfol yn aml. |
| 0 | Dim i'w wobrwyo. |

© WJEC CBAC Cyf.

## UNED 4

**C.1** **10 marc**

(i) **Cyfarfod y Cyngor i Wella'r Amgylchedd** **8 marc**

| | |
|---|---|
| | Ble? **Neuadd (y Dref)** [1] |
| | Dyddiad: **Mai 10** [1] |
| | Amser: **7.30 / 19.30** [1] |
| | Eisiau help pobl ifanc gyda: 1 marc yr un [3]<br>Unrhyw 3 ateb o'r canlynol:<br>• **(Glanhau'r) afon**<br>• **(Rhoi) posteri (o gwmpas)**<br>• **(Gwneud) crys T (gyda logo)/ logo**<br>• **Sbwriel (yn y biniau)**<br>• **Biniau**<br>• **(cadw'r) amgylchedd (yn daclus)** |
| | Gwobr am y logo gorau: **DERBYN tocyn llyfrau/ llyfrau tocyn NEU £20**. [1] |
| | Dyddiad cau: **Ebrill 9fed**. [1] |

(ii) Ysgrifennu llythyr byr yn dweud **yn Gymraeg** **2 farc**

(a) Diolch
(b) Faint o ddisgyblion sy'n mynd

1 marc am ymateb dealladwy. (Gellir gwobrwyo 1 marc am ysgrifennu'r gair diolch.)
1 marc ychwanegol am ymateb yn llawn.

© WJEC CBAC Cyf.

**C.2** **15 marc**

**Cynnwys** **8 marc**

8 marc am gyflwyno 8 ffaith yn ddealladwy ond heb o reidrwydd fod yn gwbl ramadegol gywir.

Rhaid cael 2 ffaith o **bob rhan** ac unrhyw 2 ffaith arall.

Eich teulu. (Pwy ydy eich teulu? Beth rydych chi'n gwneud gyda'ch gilydd?)

Eich cartref. (Disgrifiwch eich tŷ. Beth ydych chi'n hoffi am y lle? Beth dydych chi ddim yn hoffi am y lle?) 3 ffaith.

Penwythnos diwethaf. (Pethau wnes i penwythnos diwethaf – 3 ffaith)

**Mynegiant** **7 marc**

1 marc yr un am 4 cystrawen gywir **wahanol** = 4 marc

3 marc am 1 gystrawen gan ddefnyddio'r amser Gorffennol/ Amherffaith yn gywir (does dim gwahaniaeth ym mha ran mae'r amser Gorffennol/ Amherffaith.

**Disgwylir y cystrawennau canlynol:**
Dw i'n
Mae
Mae + gyda / gen
Es i
Chwaraeais i
___ ydy ...
Wrth fy modd
Dwlu ar

**Derbyn:**
Es i ....
Mae'n nhw
Mae nhw
Achos maen

**Ni ellir gwobrwyo marciau cywirdeb iaith am:**
Dw i'n ddim yn ...
Rydw ni'n ...
Rydw i ddim yn ...
Es i mynd
Brawddegau ble mae geiriau Saesneg e.e. Fy hoff *programme* ydy ...

© WJEC CBAC Cyf.

**20 marc**

**C.3** (i) **Ysgrifennwch yn Gymraeg beth mae Rhiannon a James yn ddweud yn eu dyddiaduron am eu topigau canlynol.**

**Rhiannon**

| |
|---|
| **Ysgol – Gwaith cartref. Problem?** (ddim yn deall) Ffiseg/ ddim yn deall y gwaith [1] |
| **Gwasanaeth ysgol. Diflas. Pam?** neb yn canu / gwrando [1] |
| **Teledu – hoffi –** operâu sebon/ *Coronation Street* / *Pobol y Cwm* [1] |
| **Ddim yn hoffi –** pêl-droed [1] |
| **Teulu. Helpu. Sut?** (dad yn) dod i'w nôl o'r parti / (dad yn) dod i'w nôl yn y car / cael lifft gan Dad / morwyn briodas i'w chwaer [1] |
| **Ffrindiau. Helpu. Sut?** (Lucy yn helpu) gyda Ffiseg / gwaith cartref / yn ffrind da / Lucy yn dod i'r tŷ [1] |
| **Dathlu. Beth?**(i) priodas (ei chwaer) [1]<br>(ii) pen-blwydd (Phil) [1] |

**James**

| |
|---|
| **Ysgol – Gwaith cartref. Problem?** pum gwaith cartref / athrawon i gyd yn rhoi gwaith cartref yr un pryd / gormod (o waith cartref) / fy hoff dîm rygbi ar y teledu / fy hoff dîm rygbi yn chwarae [1] |
| **Gwasanaeth ysgol. Diddorol. Pam?** Pawb yn cymryd rhan / gwneud rhywbeth [1] |
| **Teledu – hoffi –** rygbi/ S4C [1] |
| **Ddim yn hoffi –** (rhaglenni) dogfen [1] |
| **Teulu. Helpu. Sut?** (Wedi dysgu) hwylio gyda mam / mam yn dysgu helpu / ail mewn cystadleuaeth hwylio [1] |
| **Ffrindiau. Helpu. Sut?** (Mynd i chwarae) snwcer efo ffrindiau / mynd yn y car (efo ffrindiau) / gyda lifft [1] |
| **Dathlu. Beth?**<br>(i) (clwb rygbi wedi) ennill cwpan/ cwpan ieuenctid / cwpan dan 18 [1]<br>(ii) ysgol yn 25 oed [1] |

© WJEC CBAC Cyf.

(ii) 4 marc iaith. Hyd at 2 farc i bob rhan. Rhaid i'r cynnwys fod yn glir a chywir cyn y gellir dyfarnu marciau.

- Rhaid gwneud yn glir os ydyn nhw'n cyfeirio at Rhiannon neu James
- Rhaid dweud sut maen nhw'n debyg neu'n wahanol

e.e.
Dw i'n wahanol i Rhiannon achos mae'n gas gyda fi operâu sebon = 2 farc
Dw i'n wahanol i James achos dw i'n mwynhau gwylio rhaglenni dogfen = 2 farc
Yn wahanol i Rhiannon dw i'n casáu operâu sebon = 2 farc
GELLIR GWOBRWYO MARCIAU LLAWN OS OES YCHYDIG O WALLAU SILLAFU, OND RHAID I'R GYSTRAWEN FOD YN GYWIR
Fel i James dw i'n mwynhau gwylio rygbi ar y teledu = 1 marc (y gystrawen ddim yn gywir am 2 farc)
Dw i'n cytuno gyda Rhiannon achos dw i'n meddwl bod mae gormod o bêl-droed ar y teledu = 1 marc (y gystrawen ddim yn gywir am 2 farc)

Dw i'n cytuno gyda James achos yn fy marn i dim ond rhaglenni dogfen ar y teledu = 0 marc (oherwydd mae cyfeiriad yn y darn darllen at raglenni dogfen ar y teledu ar ddydd Llun yn unig)

© WJEC CBAC Cyf.

**C.4** Ysgrifennwch erthygl yn Gymraeg ar gyfer y Cylchgrawn Lingo. Soniwch am eich profiadau personol chi. **30 marc**

(i) Bywyd ysgol – pethau da a'r pethau drwg [3]

(ii) Defnyddio technoleg – defnyddio'r cyfrifiadur, defnyddio ffonau symudol, unrhyw dechnoleg arall rydych chi'n defnyddio [5]

(iii) Amser Hamdden – peth diddorol wnaethoch chi'n ddiweddar. (Ysgrifennwch yn yr Amser Gorffennol) [7]

**Cynnwys** 15 marc

| | |
|---|---|
| 15 - 14 | Yn gallu ymdrin yn llwyddiannus â'r gofynion a'r sgiliau. Cyfathrebu ystyrlon a'r erthygl yn datblygu'n naturiol. Yn uchelgeisiol. |
| 13 - 12 | Yn gallu ymateb i'r gweithgaredd yn gyflawn a'r rhan fwyaf o'r gofynion wedi eu cyflawni. Erthygl synhwyrol a datblygiad naturiol. Yn eitha uchelgeisiol. |
| 11 - 10 | Yn gallu ymateb i'r gweithgaredd yn weddol gyflawn ond rhai rhannau ddim cystal. Erthygl synhwyrol a datblygiad naturiol. Ddim mor uchelgeisiol ag uchod. |
| 9 - 8 - 7 | Canolig - yn llwyddo i gyfathrebu ac i ysgrifennu ymatebion eitha diddorol ac eitha cynhwysfawr. Cadw at y disgwyliadwy ac yn tueddu i fod yn aflwyddiannus gyda'r adrannau anoddaf. |
| 6 - 5 | Is na'r canolig. Yn llwyddo i ymateb i nifer o'r pwyntiau. |
| 4 - 3 | Yn llwyddo i ymateb i rai o'r pwyntiau ac yn cyfathrebu yn llwyddiannus mewn rhannau. |
| 2 - 1 | Y dasg yn ormod iddynt ond gellir gwobrwyo ambell beth yma ac acw. |
| 0 | Dim i'w wobrwyo. |

© WJEC CBAC Cyf.

**Mynegiant** 15 marc

Gwobrwyir:

(a) y gallu i gyfathrebu'n ystyrlon.
(b) y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas e.e. cymalau rheswm.
(c) y gallu i ddefnyddio'r ferf ac amser y ferf yn briodol.
(ch) y gallu i ddefnyddio cystrawen ffurfiol.
(d) geirfa addas sy'n cyfrannu at gyfathrebu ystyrlon llwyddiannus.
(dd) bydd y rwbric yn rhoi peth cymorth i'r ymgeisydd a gwobrwyir y gallu i'w ddefnyddio'n ystyrlon.

| | |
|---|---|
| 15 - 14 | Cyfathrebu llwyddiannus, cystrawen sicr, geirfa dda, syniadau pwrpasol, diddorol, rhediad naturiol a defnydd cywir (ar y cyfan) o amser y ferf. Ymatebion cywir ar y cyfan. |
| 13 - 12 | Cyfathrebu eitha llwyddiannus at ei gilydd. Geirfa a chystrawen yn caniatáu hynny ar y cyfan. Elfen amlwg o gywirdeb a’r erthygl yn darllen yn rhwydd. |
| 11 - 10 | Ymatebion pwrpasol, diddorol, rhai camgymeriadau cystrawennol, geirfa eitha da. Ymdrech i ddefnyddio amser priodol y ferf ac yn llwyddiannus fel arfer. Cyfathrebu ystyrlon a defnydd gweddol gywir o iaith. |
| 9 - 8 -7 | Canolig – yn llwyddo i gyfathrebu er bod camgymeriadau iaith. Ar y cyfan nid yw'r camgymeriadau yn cymylu'r ystyr. Geirfa ddigonol i gyflawni’r dasg. Ddim yn uchelgeisiol ond yn cynnwys y rhan fwyaf o'r pwyntiau. |
| 6 - 5 | Is na'r canolig ond yn llwyddo i gyfathrebu gan ddefnyddio cystrawennau sylfaenol yn gywir ar y cyfan. |
| 4 - 3 | Yn gallu defnyddio ambell gystrawen sylfaenol yn gywir. |
| 2 - 1 | Y dasg yn ormod iddynt ond gellir gwobrwyo ambell frawddeg yma ac acw. |
| 0 | Dim i'w wobrwyo. |

© WJEC CBAC Cyf.

**C.3 (Uwch)** **20 marc**

**Ar ôl darllen yr erthygl 'Cadw'n Iach', ysgrifennwch yn Gymraeg.**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | (i) | 2 fath o fwyd ddylech chi fwyta bob dydd. 1x1 = 2 farc<br>Unrhyw 2 ateb o'r canlynol. Does dim rhaid rhestru ar ddwy linell wahanol.<br>**Llysiau, ffrwythau, salad, pysgod, reis brown, cnau** |
| | (ii) | 2 beth sy'n bwysig i beidio bwyta gormod ohono. 1 x1 = 2 farc<br>Unrhyw 2 ateb o'r canlynol. Does dim rhaid rhestru ar ddwy linell wahanol.<br>**Byrgyrs, sglodion, bwyd parod, halen, creision, siocled.** |
| 2. | (i) | Pa fwyd sy'n dda i frecwast? [1]<br>**Uwd/ grawnffrwyth/ ffrwythau** |
| | (ii) | Pam?<br>**Cadw chi fynd tan amser cinio/ Braster a siwgr yn well (ynddyn nhw)** [1] |
| 3. | (i) | Beth ddylech chi fwyta os ydych chi eisiau bwyd rhwng prydau? [1]<br>**Dylech chi fwyta (pethau fel) ffrwythau / neu gnau.** [1] |
| | (ii) | Pam? [1]<br>**Braster a siwgr yn well (ynddyn nhw)/ Cadw chi fynd tan amser cinio** [1] |
| (Ni ellir gwobrwyo yr un ateb yn 2(ii) a 3(ii) | | |
| 4. | Ar ôl darllen y paragraff 'Cadw'n heini', ysgrifennwch ddau bwynt am sut mae cadw'n heini yn helpu pobl o bob oed.<br>Unrhyw 2 ateb o'r canlynol<br>**cadw ein pwysau'n iach** [2]<br>**cymalau / organau'n gweithio'n iawn** [2]<br>**teimlo'n hapus / hyderus** [2] | |
| 5. | Ar ôl darllen 'Cadw'n Iach' eto, ysgrifennwch ddwy frawddeg yn dweud: | |
| | (i) | Beth ddylai Bronwen wneud er mwyn bod yn fwy iach? |
| | (ii) | Beth ddylai Kevin wneud er mwyn bod yn fwy iach? |
| | Cynnwys – 2 farc<br>1 marc am ddealltwriaeth<br>1 marc am reswm<br>Mynegiant – 2 farc<br>2 farc am ymateb yn gywir<br>1 marc am ymateb sy'n cynnwys camgymeriad gramadegol<br><br>e.e. Dylai Bronwen fwyta brecwast da yn lle bwyta *Mars* amser egwyl 2 + 2 = [4]<br>Dylai Kevin gerdded i'r ysgol yn lle mynd yn y car 2 + 2 = [4] | |

© WJEC CBAC Cyf.

**C.4 Uwch** **30 marc**

Ysgrifennwch lythyr at eich Papur Bro yn rhoi eich syniadau chi ar **un** o'r canlynol: [30]

(i) Sut i helpu a gwella'r amgylchedd yn eich ysgol a'ch ardal chi.

(ii) Sut i wella cyfleusterau amser hamdden i blant a phobl ifanc yn eich ardal chi.

(iii) Sut i gael llai o blant a phobl ifanc i ysmygu ac yfed alcohol yn eich ardal chi.

**Cynnwys** 15 marc

Gwobrwyir:

(a) ymatebion diddorol a chymwys ynghyd â rhesymau lle'n briodol
(b) barn bendant a synhwyrol
(c) dilyniant rhesymegol i'r syniadau a'r farn
(ch) ymdriniaeth ddiddorol a chynhwysfawr o'r testun
(d) ymdrech i fod yn uchelgeisiol o ran syniadau ac ymatebion

| | |
|---|---|
| 15 - 14 | Ymdriniaeth hynod o hyderus. Yn gallu mynegi barn yn glir a phendant iawn gyda syniadau uchelgeisiol ac aeddfed a'r gallu i ymresymu'n glir a pherthnasol. Yn ymdopi â gofynion y dasg yn llwyddiannus iawn. |
| 13 - 12 | Ymdriniaeth hyderus. Yn gallu mynegi barn yn glir a phendant gyda rhai syniadau uchelgeisiol a'r gallu i ymresymu'n glir. Yn ymdopi â gofynion y dasg yn llwyddiannus. |
| 11 - 10 | Ymdriniaeth eithaf hyderus. Yn gwneud ymdrech i fynegi barn yn eithaf clir gyda rhai syniadau da a chynllun eithaf da i'r gwaith. Rhai rhannau gwell na'i gilydd. |
| 9 - 8 - 7 | Yn llwyddo i ymdopi â'r dasg ar lefel gyffredin ond derbyniol. Yn llai uchelgeisiol na'r uchod a'r farn a'r ymatebion yn aros ar lefel sylfaenol. |
| 6 - 5 | Yn llwyddo i ymdopi â'r dasg ar lefel sylfaenol yn unig. Ar y cyfan yn gwneud peth ymdrech i fynegi barn yn syml. |
| 4 - 3 | Diffyg syniadau a barn ar y cyfan ond gellir gwobrwyo ambell beth yma ac acw. |
| 2 - 1 | Ymdrech i ymdrin â'r dasg ar lefel arwynebol iawn yn unig. |
| 0 | Dim i'w wobrwyo |

© WJEC CBAC Cyf.

**Mynegiant** 15 marc

Gwobrwyir:

(a) y gallu i gyfleu syniadau a barn yn llwyddiannus
(b) y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas
(c) geirfa addas a chymwys i ddelio â'r testun
(ch) cywirdeb ac ymdrech i ymgyrraedd at gysondeb o ran amserau'r ferf
(d) ymdrech i greu naws ac awyrgylch priodol trwy ddefnyddio idiomau, cymariaethau a.y.b. ac efallai elfen o hiwmor.
(dd) ymdrech i argyhoeddi a pherswadio ynglŷn â barn a syniadau.

| | |
|---|---|
| 15 - 14 | Mynegiant hynod o ystwyth a hyderus, gan ddefnyddio amrywiaeth dda o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion eang a chyfoethog sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrlon a llwyddiannus iawn. Elfen gref iawn o gywirdeb gan ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir. |
| 13 - 12 | Mynegiant ystwyth a hyderus gan ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa eang sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrlon a llwyddiannus. Elfen dda o gywirdeb gan ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir. |
| 11 - 10 | Mynegiant derbyniol gan ddefnyddio peth amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion da iawn sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrlon. Elfen eithaf da o gywirdeb gan ddefnyddio rhai ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir. |
| 9 - 8 - 7 | Ymdrech i ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion da ac yn gwneud ymdrech i fynegi barn. Peth ansicrwydd gyda ffurfiau berfol ond yn ein hargyhoeddi y gallant ymdopi â'r dasg yn weddol lwyddiannus. |
| 6 - 5 | Yn defnyddio rhai patrymau brawddegol sylfaenol yn gywir. Ansicrwydd gyda ffurfiau berfol. Geirfa ac ymadroddion eithaf da ond ychydig iawn o syniadau ac yn cael anhawster i fynegi barn. |
| 4 - 3 | Yn cael trafferth i ddefnyddio patrymau brawddegol yn gywir. Geirfa weddol gyfyng a defnydd anghywir o ffurfiau berfol ar brydiau. |
| 2 - 1 | Ymdrech i gyfathrebu ond geirfa syml a chyfyngedig iawn. |
| 0 | Dim i'w wobrwyo. |



© WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd  CF5 2YX
Ffôn:  029 2026 5000
Ffacs:  029 2057 5994
E-bost:  arholiadau@cbac.co.uk
gwefan:  www.cbac.co.uk

ⓗ WJEC CBAC Cyf.